



DOMESTIC ABUSE SERVICES  
GWASANAETHAU CAM-DRIN DOMESTIG

Gwirfoddoli



Gall bywyd fod yn wahanol



Llinell Gymorth Live Fear  
Byw Heb Ofn Free Helpline

0808 80 10 800

ffôn • teict • sgwrsio byw • ebost  
call • text • live chat • email

Mae gwirfoddolwyr yn rhan hanfodol o'r gymuned Gwasanaethau Cam-drin Domestig y Vale, gan ein helpu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau'r rheini sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

Mae ein gwirfoddolwyr yn dod o lawer o gefndiroedd gwahanol ac yn dod â set amrywiol o sgiliau a phrofiadau sy'n amhrisiadwy i'n gwaith. Os byddwch yn ymuno â'n tîm penigamp, byddwch yn ennill sgiliau a phrofiadau, cael cyfleoedd i hyfforddi a dysgu, wrth wneud cyfraniad gwerthfawr a hanfodol.

## SUT I FOD YN WIRFODDOLWR

Os hoffech fod yn Wirfoddolwr gyda ni, ffoniwch neu e-bostiwch ni i gael sgwrs anffurfiol am eich diddordebau a sut hoffech helpu ac i ofyn am ffurflen gais.

Unwaith y byddwn wedi derbyn eich cais byddwn yn trefnu i chi gael cyfweliad anffurfiol gydag aelod o staff.

Cyn i chi ddechrau gwirfoddoli byddwn yn trefnu i chi gael gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae hyn yn weithdrefn safonol gan y byddwch yn gweithio gydag unigolion sy'n agored i niwed. Nid yw bod â throseddau amherthnasol yn eich gwahardd rhag gwirfoddoli gyda Gwasanaethau Cam-drin Domestig y Vale o reidrwydd.

Unwaith y byddwch wedi cael eich derbyn fel gwirfoddolwr, byddwch yn derbyn rhaglen hyfforddi wedi'i theilwra a chyfaill i'ch cefnogi yn eich taith.

## MAE GWIRFODDOLI YN WERTH CHWEIL!

P'un a hoffech ennill profiad ar gyfer eich dilyniant gyrfu neu roi rhywbeth yn ôl i'r gymuned mae gennym lawer o gyfleoedd ar eich cyfer.

# BETH FYDDWCH CHI'N EI ENNILL TRWY FOD YN WIRFODDOLWR?

Hyfforddiant rhagorol megis:

- > Ymwybyddiaeth Cam-drin Domestig
- > Llinell Gymorth a Chyfathrebiadau
- > Priodas dan Orfod ac Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol
- > Diogelu Oedolion a Phlant
- > Profiad o weithio gydag ystod eang o bobl o gefndiroedd amrywiol
- > Dysgu sgiliau newydd
- > Cwrdd â phobl newydd
- > Ennill profiad i'ch CV

**Rydym yn annog pobl 18 oed a hŷn o'n holl gymuned amrywiol i wirfoddoli. Rydym yn cynnig amgylchedd cyfeillgar, heriol a chefnogol i chi dyfu a datblygu'ch sgiliau.**

*Oherwydd natur sensitif ein gwaith, ymgeiswyr benywaidd yn unig y byddwn yn eu hystyried yn unol â darpariaethau Gofyniad Galwedigaethol (Deddf Cydraddoldeb 2010, Atodlen 9 Rhan I)*

# CYFLEOEDD GWIRFODDOLI - GWEITHIO GyDA'N TÎM LLEOL

Mae llawer o ffyrdd y gallech gymryd rhan yn y tîm lleol. Gallech:



## LLINELL GYMORTH

Ddarparu clust i wrando ar gleientiaid trwy wirfoddoli ar ein llinell gymorth oriau swyddfa. Mae rôl gwirfoddolwr llinell gymorth yn bwysig gan efallai chi fydd y person cyntaf mae'r galwr yn dweud wrthynt am y cam-drin domestig a thrais rhywiol y mae'n profi.



## HELPU I HWYLUSO GRŴP

Mae Gwasanaethau Cam-drin Domestig y Vale yn cynnal sawl grŵp a gweithdy lles. Bydd gwirfoddolwyr yn darparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol i gyfranogwyr yn ystod y cyrsiau ac yn helpu i drefnu'r sesiynau.



## GWIRFODDOLWR CYMORTH LLOCHES

Mae gan wirfoddolwyr mewn lloches ystod eang o gyfrifoldebau gan gynnwys darparu cefnogaeth ymarferol ac emosiynol, trefnu gweithgareddau i'r preswylwyr, gan eu cysylltu â chyfleoedd eraill.





## GWIRFODDOLWR CWNSELA

Mae gan Wasanaeth Cam-drin Domestig y Vale wasanaeth cwnsela arbenigol sy'n cael ei ddarparu gan wirfoddolwyr cwnsela. Rydym yn cymryd myfyrwyr ar leoliad yn ogystal â chwnselwyr hyfforddedig a phrofiadol. Mae'n rhaid bod gan bob un o'n cwnselwyr gofrestrriad y Gymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain. Mae ein gwasanaeth cwnsela yn wasanaeth y mae mawr alw amdano.



## DIGWYDDIADAU

Helpu ni i godi ymwybyddiaeth trwy ein helpu i drefnu digwyddiadau i oroeswyr ac i godi arian.

## HYRWYDDWYR CYMUNEDOL

Mae Hyrwyddwyr Cymunedol yn defnyddio eu gwybodaeth leol i adeiladu ar eu cryfderau cymunedol. Maent yn deall diwylliant a theimlad y gymuned a sut mae'n gweithio. Gallai'ch dealltwriaeth leol chi fod yn hanfodol i drawsnewid a gwella'r ymateb lleol i gam-drin domestig, gan ein helpu tuag at newid parhaol a chadarnhaol.





**Am ragor o wybodaeth ffoniwch ein llinell gymorth**

**01446 744755**

**neu e-bostiwrch**

**info@valedas.org**

 **valedas.org**

*Gall bywyd fod yn wahanol*